

MAIR WYNN HUGHES


adnabod
awdur








CEFAIS FY NGENI ym Mryncir, Eifionydd, pentre bychan heb fod ymhell o'r Lôn Goed. Es i Ysgol Gynradd Brynengan, wedyn i Ysgol Dyffryn Nantlle, ac yna i'r Coleg Normal ym Mangor. Bûm yn athrawes ym Mhentraeth, Ynys Môn, ac yna'n wraig fferm yn yr un ardal. Erbyn hyn, mae Tom a minnau wedi ymddeol ac wedi gadael y fferm i fyw yn y pentref.

Rwy'n fam i Rhian a Iona, ac yn nain i Catrin a Dafydd.

Rydw i wrth fy modd yn darllen. Mae silffoedd a chypyrddau ein tŷ ni yn llawn dop o lyfrau. Does dim rhyfedd bod Tom yn taeru y buasen ni'n deulu cyfoethog taswn i'n gwario llai ar lyfrau! Byddaf yn prynu pentwr o lyfrau ar fy ngwyliau. Fy hoff le i ymweld ag ef ydi'r Gelli Gandryll. Mae'r pentref yma'n llawn o lyfrau o bob math, gan gynnwys un neu ddau o fy llyfrau i hyd yn oed!

Ond fy hoff ddiddordeb yw sgrifennu. Mae eistedd o flaen y cyfrifiadur a gweld y stori'n tyfu a datblygu ar y sgrin yn rhoi gwefr arbennig i mi. Mae'r cymeriadau a'r sefyllfaoedd yn fyw yn fy meddwl, a byddaf yn dyheu am weld popeth yn disgyn i'w le. Ac, wrth gwrs, mae gweld y llyfr gorffenedig yn y siopau wedyn yn brofiad arbennig!





Byddaf yn dechrau sgrifennu tua hanner awr wedi naw y bore, ac os bydd y stori'n datblygu'n hawdd, byddaf yn dal ati trwy'r dydd. Mae pob awdur yn sgrifennu'n wahanol. Awdur 'ffwrdd-â-hi' ydw i. Fydda i ddim yn cynllunio'r stori ymlaen llaw. Mi fydda i'n meddwl am gymeriadau, yna'n eu gosod mewn sefyllfa arbennig ar ddechrau'r stori, a rywsut – wn i ddim sut – maen nhw'n meddiannu'r stori, ac yn bihafio'n wahanol i'r hyn oeddwn i wedi'i fwriadu! Ac felly, bydd datblygiad y stori yn aml yn 'syrpreis' i mi.

Byddaf yn cael trafferth ofnadwy gyda theitlau fy storiâu, a chan nad oes neb o'r teulu'n darllen fy ngwaith nes iddo ymddangos mewn llyfr, bydd yn rhaid i mi ofyn am help gan y wasg weithiau! Ond er gwaethaf ambell anhawster, mae bywyd awdur wrth fy modd.

Os hoffech weld holiadur gan Mair Wynn Hughes edrychwch ar dudalen Awduron a Darlunwyr ar y wefan www.cllc.org.uk/plantarlein

Llyfrau diweddaraf Mair Wynn Hughes

Fy Hanes I: Gwas y Stabl – dyddiadur Sion Dafydd, Plas Creuddyn 1582-1593
1843232944 £4.99
Waw! Antur!
1903314550 £4.00
Waw! Antur Eto!
1904845029 £4.00
Y 'Fo' yn y Tŷ
190331464X £5.00
Rhyfel y Degwm
184323260X £4.99
Tipyn o Gamp 1 (un stori)
1843232340 £4.50

Hen Wŷr y Môr
1859027296 £3.95
Mi Fydd Bywyd yn Grêt
18559864066 £3.75
Trip a Hanner
1903314232 £3.50
Cyfres Clic (nifer o lyfrau)
Cyfres Dwy-Es (nifer o lyfrau)

Enillodd Mair Wynn Hughes
Wobr Tir na n-Og dair gwaith:
Y Llinyn Arian 1984
Llygedyn o Heulwen 1990
Coch yw Lliw Hunllef 1996

